

# SL(5)752 – Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheolau hyn yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy i'r Prif Gofrestrydd Tir am amrywiol wasanaethau sy'n ymwneud â phridiannau tir lleol sy'n effeithio ar dir yng Nghymru. Darperir y gwasanaethau hynny o dan Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 ("Deddf 1975") a Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018. Mae'r ffioedd a ragnodir yn y Rheolau hyn yn disodli'r ffioedd a bennir gan reol 14 o Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 ac Atodlen 3 iddynt am wasanaethau tebyg sy'n ymwneud â phridiannau tir lleol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Rheolau hyn yn cael effaith yn ardal weinyddol awdurdod lleol ar neu ar ôl y dyddiad a bennir mewn hysbysiad a roddir gan y Prif Gofrestrydd Tir i'r awdurdod lleol hwnnw yn unol â Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015.

Mae'r gwasanaethau y mae ffioedd yn daladwy amdanynt wedi eu nodi yn yr Atodlen. Mae rhesi (1) i (4) yn wasanaethau mewn cysylltiad â hysbysiadau rhwystro golau, sy'n fath penodol o bridiant tir lleol. O dan baragraff (5), mae ffi yn daladwy am chwiliad swyddogol o'r gofrestr – nid yw'r ffi honno'n daladwy os ceir cais am chwiliad o'r fath o fewn 6 mis i gais cynharach gan yr un person, mewn perthynas â'r un tir, y talwyd ffi amdano.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheolau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheolau hyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gwneir y Rheolau hyn o dan adran 14(1) o Ddeddf 1975, sy'n darparu fel a ganlyn:



*“The Lord Chancellor may, with the concurrence of the Treasury as to fees, make rules for carrying this Act into effect”.*

Mae'r Rheolau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n gosod ffioedd ar gyfer rhai taliadau tir lleol.

Gwnaed y rheolau cyfatebol sydd ar waith yn Lloegr – Rheolau Pridiannu Tir Lleol (Lloegr) 2018 – o dan yr un pŵer galluogi, gyda chytundeb y Trysorlys.

Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*“Trosglwyddwyd pŵer yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 14(1)(h) o Ddeddf 1975, i'r graddau y gellir ei arfer mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.”*

Mae hyn yn esbonio trosglwyddo pŵer yr Arglwydd Ganghellor i Weinidogion Cymru, ond nid yw'n cyfeirio at swyddogaeth y Trysorlys. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Rheolau hyn na'r Memorandwm Esboniadol at y Trysorlys yn cytuno i wneud y Rheolau hyn.

Byddai'n ddefnyddiol deall sail gyfreithiol Llywodraeth Cymru dros wneud y Rheolau hyn os na chafwyd cytundeb y Trysorlys.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

### Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3 Mawrth 2021



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**